



Ysgol Mynydd Bychan



Cynllun Hygyrchedd

Cyflwyniad

“Mae cynyddu mynediad i addysg ar gyfer disgyblion ag anableddau yn elfen allweddol o gyfrifoldeb statudol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 o ddarparu cyfle cyfartal i bawb wrth arfer ei swyddogaethau. Mae’n dymuno bod pobl ag anableddau yn gallu cyfranogi’n llawn mewn cymdeithas a byw’n annibynnol ac yn hunangynhaliol yn ariannol.”

Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif :15/2004

Crewyd y Cynllun Hygyrchedd Ysgol Mynydd Bychan mewn cytundeb â ran 1V o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail anabledd (DGA)1995, fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001) i gynllunio i gynyddu fwyfwy hygyrchedd ysgolion i ddisgyblion ag anableddau.

Mae gan y Corff Llywodraethol dri brif dyletswydd tuag at disgyblion ag anabledd:

- I beidio trin disgyblion anabl yn llai ffafriol oherwydd eu hanabledd
- I wneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl, fel nad ydynt yn o dan anfantais sylweddol
- I gynllunio i gynyddu hygyrchedd i addysg ar gyfer disgyblion anabl.

Mae’r cynllun Hygyrchedd yn nodi cynnigiadau y Corff Llywodraethol i gynyddu mynediad i addysg i ddisgyblion ag anabledd. Mae tair elfen i’r ddyletswydd cynllunio fel y nodwyd yn Adran 28D o Ddeddf AAA ac Anabledd 2001:-

- cynyddu’r graddau y mae disgyblion yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol
- gwella amgylchfyd ffisegol yr ysgol
- gwella’r modd mae gwybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion heb anableddau yn cael ei chyflwyno i ddisgyblion ag anableddau.

Nod Cynllun Hygyrchedd Ysgol Mynydd Bychan yw i wella mynediad ar gyfer disgyblion ag anableddau mewn modd strategol a bwriadol a thrwy hynny alluogi disgyblion ag anableddau i ddatblygu eu llawn botensial yn unol ag egwyddorion ‘Y Wlad sy’n Dysgu’. Drwy wneud hyn byddwn yn gwella mynediad i staff, rhieni ac aelodau’r cyhoedd sydd ag anableddau hefyd.

Mae’r DGA yn diffinio unigolyn anabl fel “unigolyn â nam corfforol neu feddyliol sy’n cael effaith niweidiol sylweddol a thymor hir ar ei allu ef neu hi i gyflawni gweithgareddau bob dydd arferol.” Mae nam corfforol neu feddyliol yn cynnwys

namau ar y synhwyrâu(golwg a chlyw) ac anawsterau dysgu. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys rhai cyflyrau meddygol pan fyddant yn cael effaith sylweddol a thymor hir ar fywyd pob dydd yr unigolyn . Mae cyflyrau iechyd meddwl yn gynwysiedig hefyd os ydynt yn afiechydon clinigol cydnabyddedig.

1a. Gweledigaeth a gwerthoedd

Un o amcanion allweddol yr ysgol yw i leihau a dileu rhwystredigaethau rhag cymryd rhan lawn yn y cwricwlwm, yng nghymuned a bywyd yr ysgol, i ddisgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau'r cyhoedd .

Mae'r ysgol wedi gosod y blaenoriaethau canlynol i ddatblygu y weledigaeth a'r gwerthoedd:

- I beidio gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl wrth eu derbyn neu'u gwahardd
- I beidio gwahaniaethu o ran darparu addysg a gwasanaethau cysylltiedig
- I beidio trin disgyblion anabl yn llai ffafriol
- I gymryd camau rhesymol er mwyn peidio rhoi disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol.
- I gyhoeddi cynllun hygerchedd.

1b. Gwybodaeth o ddata disgyblion ac archwiliad ysgol

Mae'r ysgol yn cyhoeddi ei 'Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd' ym Mhrosiectws yr ysgol ac ar wefan yr ysgol. Nodir amcanion yr ysgol ynglyn â sicrhau cydraddoldeb anabledd ynghyd â chynnig y cyfle i rieni/warchodwyr i roi gwybodaeth ynglyn ag unrhyw anabledd sy'n effeithio hwy neu'u plant.

Pam dderbynir wybodaeth gan rieni/warchodwyr/asiantaeth allanol am ddisgybl sydd ag anabledd, mae'r ysgol yn

- asesu'r sefyllfa o ran addasrwydd yr adeilad
- cynllunio mynediad i gwricwlwm yr ysgol drwy gynllunio gofalus e.e cynnwys disgyblion ag anbaledau corfforol mewn Addysg Gorfforol.
- cynllunio mynediad i holl agweddau o fywyd ysgol e.e disgybl â nam gweld, rhoddir stribedi lliw llachar ar y grisiau, newidiwyd maint y 'font' ar daflenni gwaith; ymweld â Gwersyll yr Urdd Llangrannog, mae'r ysgol yn cynnal trafodaethau gyda'r rhieni, swyddogion y gwersyll er mwyn sicrhau bod y disgybl yn medru cymryd rhan.
- darparu hyfforddiant i'r staff e.e hyfforddiant Epilepsi, Clefyd y siwgr.

Yr Adeilad

Mae adeilad Ysgol Mynydd Bychan wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer gofynion disgyblion anabl.

- Mae gan yr ysgol lifft sy'n galluogi disgyblion a phobl ag anabledd i gyrraedd y llawr uchaf.
- Mae drws y Brif Fynedfa yn addas ar gyfer pobl/disgyblion ag anabledd, defnyddiwyd system botwm i agor y drws.
- Mae gan yr ysgol tai bach ar gyfer yr anabl ar y ddau lawr.

- Ceir rampiau ar gyfer yr anabl tu allan i bob drws yr ysgol ond am Fynedfa'r Feithrin.
- Ar y drysau yn yr estyniad newydd ysgrifenydd enw'r ystafell yn 'braille'.

Meysydd i'w datblygu

- Angen prynu cadair ar gyfer cario disgybl/person sy'n defnyddio cadair olwyn i lawr y grisiau petasai argyfwng tân. Mewn sefyllfa fel hyn, nid yw'r lifft yn gweithio.

2a. Cynyddu gallu pob plentyn i gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sydd wedi'i wahaniaethu i gwrdd ag anghenion a diddordebau pob disgybl gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anabledau.

Mae'r ysgol wedi gosod y blaenoriaethau canlynol ar gyfer cynyddu hygyrchedd y cwricwlwm.

- addasu canllawiau gwaith yn ôl yr angen
- darparu adnoddau addas e.e fel cymhorthion corfforol, cymhorthion golwg
- gweithgareddau datblygu staff e.e hyfforddiant
- cydweithio ag ysgolion eraill a rhannu arfer dda
- cydweithio ag asiantaethau allanol
- cydweithio gyda'r Athro/awes Anghenion Ychwanegol
- cynnal gwasanaethau ysgol ar anabledd a mynediad
- trafodaethau rhwng disgyblion ag anabledau a staff, rhwng staff a rhieni/warchodwyr
- defnyddio'r gefnogaeth ar gyfer ehangu mynediad i'r cwricwlwm a gynigir gan yr AALI
- trefnu cefnogaeth cyfoedion fel cyfeillio, mentora neu 'gylch o ffrindiau' sy'n cynllunio ffyrdd o helpu'r disgybl sydd ag anabledd i gael mynediad at y cwricwlwm a'r cyfleoedd cymdeithasol a ddarperir gan yr ysgol
- banc o adnoddau a chynlluniau gwersi
- ystyried anghenion asesu disgyblion ac unrhyw addasiadau rhesymol
- cydweithrediad agos gyda'r rhieni/warchodwyr

2b. Gwella amgylchedd corfforol yr ysgol er mwyn cynyddu gallu pob disgybl i gymryd mantais o addysg a gwasanaethau cysylltiedig.

Mae adeilad Ysgol Mynydd Bychan wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer gofynion disgyblion anabl.

Rhaid ystyried beth y gallwn wneud i wneud yr amgylchedd ffisegol yr ysgol yn fwy hygyrch o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni ac ystyried hygyrchedd yn ein penderfyniadau prynu.

Rhaid cymryd i ystyriaeth cyllid yr ysgol. Mae modd gwenudd cais am arian wrth e.e y 'Contingency Fund' cronfa arian ar gyfer gwaith argyfwng yn ysgolion Caerdydd.

2c. Gwella'r trosglwyddiad i ddisgyblion anabl o wybodaeth sydd yn cael ei ddarparu'n ysgrifenedig i ddisgyblion heb anabledd.

Gallai hyn gynnwys defnyddio fformat arall, fel print bras, tâp sain, Braille, system symbolau cydnabyddedig, defnyddio TGCh a darparu gwybodaeth yn llafar, drwy leferydd gwefus neu iaith arwyddion. Rhaid cymryd anableddau disgyblion i ystyriaeth a dymuniadau disgyblion neu eu rhieni/warchodwyr am y dull cyfathrebu y maent yn ei ffafrio.

3. Y ffordd ymlaen

3a. Rheolaeth, cyd-drefniant a gweithrediad.

Mae'r blaenoriaethau canlynol wedi eu gosod ar gyfer rheolaeth, cyd-drefniant a gweithrediad.

- Mae'r Corff Llywodraethol yn cynorthwyo, monitro ac yn adolygu'r cynllun hygyrchedd.
- Maent yn sicrhau bod adeiladau a thir yr ysgol yn addas ac yn cael eu defnyddio yn y ffordd mwyaf effeithiol ar gyfer disgyblion ag anableddau.
- Maent yn cydweithio gyda'r ysgol i fonitro'r addysgu er mwyn sicrhau cynhwysiad i bob disgybl
- Mae'r Corff Lywodraethol yn cydweithio gyda'r ysgol i fonitro'r cwricwlwm a gweithgareddu allgyrsiol er mwyn sicrhau mynediad llwyr i'r disgyblion ag anabledd
- Mae'r Corff Llywodraethol yn cydweithio gyda'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli i greu cynllun ar gyfer ariannu cynllun hygyrchedd yn ddigonol. Fe fydd costau gweithredu'r cynllun yn cael eu hymgyffori i ymrwymadau'r gyllideb bresennol ac yn y dyfodol.
- Credwn fod gan rieni rôl hanfodol er mwyn cynorthwyo eu plant i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm a bywyd ysgol. Annogir y rieni i roi'r wybodaeth berthnasol i'r ysgol fel ein bod yn medru eu cefnogi yn y ffordd orau bosib. Fe ymdrinir ag unrhyw wybodaeth yn arwahanol.
- Fe fydd yr ysgol yn cydlynu gyda'r AALI ynghylch adnoddau i ariannu prosiectau cyflafaf.
- Gweler polisiau Anghenion Ychwanegol, Polisi Abl a Thalentog, Polisi Cydraddoldeb Hiliol, Datganiad Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd

3b. Sut i gael gafael ar gynllun hygyrchedd yr ysgol

- Mae'r Cynllun Hygyrchedd ar gael ar wefan yr ysgol
- Yn ysgrifenedig drwy gais
- Mewn ffurf ysgrifenedig chwyddiedig drwy gais
- Mewn ffurf glywedol drwy gais

